**Is Adran y Gymraeg – Llywodraeth Cymru**
**Cofnodion cyfarfod**: Canolfannau Iaith Cymru

- **Dyddiad y cyfarfod:** Medi 24ain, 2015
- **Amser:** 12:00pm
- **Lleoliad:** Yr Atom, Caerfyrddin
- **Yn Bresennol**: Gwilym Dyfri Jones, Gwydion Wynne, Iola Wyn (Yr Atom, Caerfyrddin), Enid Williams (Canolfan Bodedern), Frances Jones, Llinos Roberts (Camu, Wrecsam), Eirian Williams, Silyn Roberts (Tregaron), Owain Glenister, Bethan Jones (Y Lle, Llanelli), Dr Gwenno Ffrancon, Sioned Williams (Pontardawe), Non Davies (Aberteifi), Ffion Gruffudd, Sian Lewis (Caerdydd)
- **Ymddiheuriadau:** Menter Iaith Bangor
- **Cadeirydd y Cyfarfod:** Bethan Webb

| **Rhif yr Eitem** | **Teitl yr Eitem, Trafodaeth a chasgliad** | **Pwynt Gweithredu** |
|---|---|---|
| **1.** | <u>**Gair o groeso a nodi ymddiheuriadau.**</u><br>Estynnwyd croeso i bawb gan Bethan Webb ynghyd â diolch i Ganolfan Yr Atom am y croeso a'r lluniaeth.<br><br>Rhoddwyd diweddariad ar faes polisi adran y Gymraeg a nodwyd pa mor bwysig yw datblygiad y canolfannau hyn fel rhan o'r pecyn i atgyfnerthu'r Gymraeg yn y gymuned. | |
| **2.** | <u>**Cyflwyniad Yr Atom**</u><br><br>Cafwyd gair o groeso gan Gwilym Dyfri Jones, dirprwy Is-Ganghellor Cysylltiol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac eglurwyd cefndir y ganolfan yng Nghaerfyrddin; y buddsoddiad, y cyfleusterau, a'r brif nôd o ddwyieithogi tref Caerfyrddin. Nodwyd yr hyn sydd wedi ei gyflawni a'i ddysgu yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd taith o amgylch yr adeilad. | |
| **3.** | <u>**Diweddariad gan y Canolfannau**</u><br><br>**Camu – Wrecsam**<br>Mi fydd y Ganolfan yn Wrecsam yn canolbwyntio ar weithio gyda gweithleoedd gan deilwra a darparu hyfforddiant | |

| Rhif yr Eitem | Teitl yr Eitem, Trafodaeth a chasgliad | Pwynt Gweithredu |
|---|---|---|
| | dysgu Cymraeg i staff a gweithlu sefydliadau ardraws y Gogledd Ddwyrain. Maent wedi llwyddo ennill cytundeb gyda Heddlu Gogledd Cymru ymysg eraill ac mae Cynghorau Fflint a Wrecsam yn bartneriaid strategol yn natblygiad y ganolfan. Gan fod y Ganolfan yn cael ei arwain gan Goleg Addysg Bellach Cambria, maent hefyd yn mynd i fod yn gweithio gyda'r Coleg i gynnig cyfleoedd a darpariaethau paratoi pobl ifanc ar gyfer gweithleoedd sydd angen sgiliau dwyieithog.<br><br>**Tregaron**<br>Mi fydd Canolfan Tregaron yn ffurfio rhan o'r campws ysgol newydd 3-16oed yn Nhregaron. Yn wahanol i'r Canolfanau eraill, canolfan drochi ar gyfer disgyblion fydd y ganolfan hon yn benna ond fe fydd yn cael ei hyrwyddo fel canolfan gymunedol yn ogystal tu hwnt i oriau ysgol.<br><br>**Y Lle**<br>Mae'r Lle yn cael ei redeg gan Gwmni Cydweithredol ac yn ddibynnol ac yn derbyn cymorth sawl gwirfoddolwr er mwyn cynnal y gweithgareddau. Mae'r ganolfan yn naturiol wedi datblygu i fod yn Ganolfan ar gyfer pobl ifanc oherwydd yma oedd y bwlch yn narpariaeth y dref. Mae'r adborth gan y bobl ifanc a'u teuluoedd yn gadarnhaol, ac maent hefyd yn ymestyn eu gweithgareddau ar draws y dref ac yn cynnig darpariaeth Cymraeg i Oedolion.<br><br>**Pontardawe**<br>Mae Canolfan Pontardawe yn bartneriaeth rhwng Cyngor Castell Nedd Port Talbot, Y Fenter Iaith ac Academi Hywel Teifi. Mi fydd y Ganolfan yn cael ei datblygu mewn adeilad sydd mewn perchnogaeth i'r Cyngor ac fe fydd Llyfrgell y dref yn rhan o'r ganolfan newydd. Ffocws y Ganolfan fydd datblygu gweithgareddau er mwyn ymateb i'r diffyg trosglwyddo iaith sy'n digwydd gan bobl ifanc rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd.<br><br>**Aberteifi**<br>Fe fydd yr adeilad ar gyfer y ganolfan sy'n rhan o gampws Coleg Ceredigion yn Aberteifi, yn cael ei adeiladu o'r newydd. Mi fydd y gofod anffurfiol hwn yn le cymdeithasol ar gyfer myfyrwyr y coleg yn ogystal â'r gymuned ehangach ac mi fydd pwyslais ar weithio mewn partneriaeth a mudiadau cymunedol yn lleol. Mi fydd y ganolfan hon hefyd yn mynd ar ôl defnydd o'r Gymraeg mewn busnesau yn lleol. | |

| Rhif yr Eitem | Teitl yr Eitem, Trafodaeth a chasgliad | Pwynt Gweithredu |
|---|---|---|
| | **Yr Hen Lyfrgell**<br>Fe fydd Canolfan Caerdydd sef yr Hen Lyfrgell yn anelu at agor ddiwedd Ionawr 2016. Bydd y ganolfan yn cynnig ystod eang o weithgareddau a phrofiadau Cymraeg. Bydd yn cynnwys caffi, siop lyfrau, ystafelloedd addysgu ac ardal arddangosfa, lle perfformio hyblyg a chyfleusterau cynadledda. Bydd yn ganolbwynt i ddiwylliant Cymraeg y ddinas ac yn ganolfan hygyrch ar gyfer addysg lle gall pobl ddysgu neu ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch cymdeithasol a chyfeillgar. Bydd yn gartref i nifer o sefydliadau Cymraeg ac yn cynnig amryw ddigwyddiadau a chyfleoedd i ymwelwyr, dysgwyr Cymraeg a phobl ifanc.<br><br>**Bodedern, Ynys Môn**<br>Mae yna ddwy Ganolfan wedi ei sefydlu ar gampws ysgol uwchradd Bodedern sef Canolfan Trochi iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid oedran uwchradd, a Chanolfan Gymunedol ar gyfer pobl ifanc. Mae swyddogion yr Urdd eisoes yn gweithio yn y ganolfan gymunedol  ac mae bwriad i gynnig ystod eang o weithgareddau pob noson o'r wythnos i'r bobl ifanc yn lleol. Mi fydd ffocws hefyd yn cael ei roi ar ddefnydd technoleg pobl ifanc gyda'r bwriad i ddatblygu rhaglenni radio a podlediadau ymhlith syniadau eraill. | |
| **4.** | <u>**Marchnata**</u><br>Oherwydd diffyg amser ni fu'n bosibl cael trafodaeth ar Farchnata ond dyma nodyn pellach er gwybodaeth gan Heledd Daniel.<br><br>**Twitter a Facebook**<br><br>Fel man cychwyn, byddai'n fuddiol i ni gyd ddilyn ein gilydd ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn gallu hyrwyddo'r gwaith rydych yn ei gyflawni gyda'r canolfannau. Byddai modd i chi ddilyn/hoffi @iaithfyw a Facebook/Cymraeg neu rhoi gwybod i ni beth yw'ch cyfrifon?<br><br>**Proffeil ar y wefan Cymraeg**<br><br>Rydym wedi sefydlu gwefan <u>www.llyw.cymru/cymraeg</u> fel porthol i hyrwyddo'r Gymraeg i bawb. Hoffwn:<br><br>• Rhoi sylw i agoriadau swyddogol pob canolfan – datganiad a lluniau<br>• Gofyn i rai o ddefnyddwyr y canolfannau i greu blog/vlogs i rannu ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol yn | |

| Rhif yr Eitem | Teitl yr Eitem, Trafodaeth a chasgliad | Pwynt Gweithredu |
|---|---|---|
| | sôn am eu profiadau nhw<br>• Rhoi'r cyfle i chi ddefnyddio'r digwyddiadur ar ein gwefan i hyrwyddo beth sy'n mynd 'mlaen<br><br>Mi wnawn gysylltu gyda chi'n uniongyrchol i gael y wybodaeth berthnasol a gweld pa ffordd orau i gyd-weithio<br><br>**Cyd-gysylltu a cyd-hyrwyddo**<br><br>A fyddai modd i chi gynnwys linc ar ein gwefan www.llyw.cymru/Cymraeg ar eich gwefannau chi?<br><br>Byddwn hefyd yn gwerthfawrogi eich mewnbwn chi ar y wefan er mwyn gallu gwella'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig os allwch sbario 5 munud:<br><br>https://www.surveymonkey.com/r/gwefancymraeg<br><br>**Canllawiau Brand Llywodraeth Cymru**<br><br>Mae'n ofynnol i chi ddefnyddio brandio Llywodraeth Cymru - wedi atodi, mae'r canllawiau brand cyffredinol a'r canllawiau ar gyfer canolfannau arian cyfalaf.<br><br>(Os ydych yn cynhyrchu plac neu gofeb, noder ei bod yn bosibl i chi wneud yn uniaith Gymraeg – byddwn yn disgwyl gweld sut mae'r brandio wedi ei ddefnyddio cyn i chi greu unrhyw beth)<br><br>**Brand Cymraeg**<br><br>Rydym yn gofyn i chi ddefnyddio'r brand Cymraeg ar eich nwyddau a deunyddiau marchnata – mae canllaw ar sut i ddefnyddio hwn hefyd wedi atodi.<br><br>Ein nod gyda'r brand hwn yw dangos y gyd-berthynas sy'n bodoli rhwng yr holl sefydliadau a chyrff bach a mawr sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.<br><br>Os oes unrhyw ymholiad gennych o ran brandio, cyd hyrwyddo, croeso i chi gysylltu hefo Heledd Daniel, heledd.daniel@cymru.gsi.gov.uk / Ffôn/Tel: 02920 826 587 | |
| **5.** | Adroddiad Cau y Canolfannau | |

| Rhif yr Eitem | Teitl yr Eitem, Trafodaeth a chasgliad | Pwynt Gweithredu |
|---|---|---|
| | Oherwydd diffyg amser, ni chafwyd cyfle i drafod yr adroddiad cau, mesur effaith y Canolfannau Iaith ond gofynnwn yn garedig i bawb ddarllen y canllawiau a bod yn glir o'r hyn y bydd y Llywodraeth yn disgwyl ei dderbyn, a chyfeirio unrhyw gwestiynau pellach at Laura Hughes , laura.hughes5@cymru.gsi.gov.uk / 01286 662 316 / 07966 938864 | |
| **6.** | **Cyfarfodydd i'r dyfodol**<br>Penderfynwyd cynnal y cyfarfodydd hyn ddwywaith y flwyddyn, gyda'r nesaf yn cael ei gynnal yn Camu, Wrecsam yn y flwyddyn newydd. Cytunwyd yn ogystal y byddai'n fuddiol trefnu cynhadledd flynyddol er mwyn dod â'r holl Ganolfannau Iaith sy'n bodoli eisoes at ei gilydd i rannu arferion da a phrofiadau. | |